



Group B Strep  
Support



Royal College of  
Obstetricians &  
Gynaecologists

Welsh/Cymraeg

# Streptococws Grŵp B (GBS) mewn beichiogrwydd a babanod newydd anedig



## Streptococws Grŵp B (GBS)

### Heintio yn ystod Beichiogrwydd

Mae'r wybodaeth hon i chi os ydych chi (neu ffrind neu berthynas) yn disgwyl babi, yn bwriadu bod yn feichiog neu wedi cael babi yn ddiweddar. Mae'n rhoi gwybod i chi am haint Streptococws Grŵp B (GBS) mewn babanod yn ystod yr wythnos gyntaf wedi'r enedigaeth (a elwir yn GBS cychwyn cynnar) ac mae'n darparu cysylltiadau i wybodaeth bellach am haint GBS cychwyn hwyr. Mae'n cynnwys argymhellion cyfredol y Deyrnas Unedig ar gyfer atal haint GBS mewn babanod newydd-anedig.

Ceir geirfa o'r termau meddygol a ddefnyddir yn yr wybodaeth hon ar wefan RCOG ar:  
[www.rcog.org.uk/en/patients/medical-terms](http://www.rcog.org.uk/en/patients/medical-terms)

**Mae'r RCOG a GBSS yn falch i weithio gyda'i gilydd i wella ataliad haint Streptococws Grŵp B mewn babanod newydd-anedig. Mae'r ddau sefydliad yn cytuno wrth weithredu'r argymhellion hyn yn llawn ar draws y Deyrnas Unedig, bydd y gyfradd o heintiau Streptococws Grŵp B y gellir eu hosgoi mewn babanod newydd-anedig yn gostwng.**



## Pwyntiau allweddol

- Mae Streptococws Grŵp B (GBS) yn un o'r nifer o facteria sydd fel arfer yn byw yn ein cyrff heb achosi unrhyw niwed
- Ni fydd sgrinio ar gyfer GBS yn cael ei gynig fel mater o drefn i'r holl ferched beichiog yn y Deyrnas Unedig
- Os byddwch yn cario GBS, gan amlaf bydd eich baban yn cael ei eni'n ddiogel ac ni fydd yn datblygu haint. Fodd bynnag, mewn achlysuron prin gall achosi heintiau difrifol fel sepsis, niwmonia neu lid yr ymennydd
- Mae modd atal y rhan fwyaf o heintiau GBS cychwyn cynnar
- Os canfyddir GBS yn eich wrin, fagina neu rectwm (perfedd) yn ystod eich bechiogrwydd presennol, neu os ydych chi wedi cael babi sydd wedi ei effeithio gan haint GBS yn y gorffennol, dylid cynnig cyffuriau gwrthfotig i chi yn ystod esgor i leihau'r risg bychan o'r haint hwn i'ch baban
- Mae'r risg y bydd eich baban yn sâl gyda haint GBS yn cynyddu os caiff eich baban ei eni cyn pryd, os oes gennych chi dymheredd tra'ch bod yn esgor, neu os bydd eich dŵr yn torri cyn i chi gychwyn yr enedigaeth
- Os yw'ch baban newydd-anedig yn datblygu arwyddion haint GBS, dylai dderbyn triniaeth gyda chyffuriau gwrthfotig ar unwaith

## Beth yw GBS?

Mae GBS yn facteriwm cyffredin (byg) sy'n cael ei gario yn y fagina a [rectwm](#) 2 - 4 o bob 10 o ferched (20 – 40%) yn y Deyrnas Unedig. Nid yw GBS yn glefyd a drosglwyddir yn rhywiol ac ni fydd gan y mwyafrif o ferched sy'n cario GBS unrhyw symptomau. Nid yw cario GBS yn niweidiol i chi, ond gall effeithio ar eich baban tua adeg yr enedigaeth. Yn achlysurol gall GBS achosi haint difrifol mewn babanod newydd-anedig ac, ar achlysuron prin iawn, yn ystod beichiogrwydd a chyn esgor.

## Sut mae GBS yn cael ei ganfod?

Weithiau fe ganfyddir GBS yn ystod beichiogrwydd pan fyddwch yn cael swab o'r fagina neu'r rhefr neu brawf wrin.

Yn y Deyrnas Unedig, nid yw'r GIG yn cynnig sgrinio i bob dynes feichiog ar gyfer GBS fel mater o drefn. Am ragor o wybodaeth ar y profion sydd ar gael, ewch i'r wefan Group B Strep Support (GBSS): [www.gbss.org.uk/TestingforGBS](http://www.gbss.org.uk/TestingforGBS).

## Beth allai GBS ei olygu ar gyfer fy maban?

Bydd nifer o fabanod yn dod i gysylltiad â GBS yn ystod esgor neu tua'r enedigaeth. Ni fydd y mwyafrif helaeth o'r babanod hyn yn dod yn sâl. Fodd bynnag, os byddwch yn cario GBS, mae yna bosibiliad bychan y bydd eich baban yn datblygu haint GBS ac yn ddifrifol wael, neu hyd yn oed yn marw.

Mae tua 1 o bob 1750 baban newydd-anedig yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon yn cael diagnosis o haint GBS. Yr heintiau y bydd GBS yn achosi yn fwyaf cyffredin mewn babanod newydd-anedig yw sepsis (haint o'r gwaed), niwmonia (haint yn yr ysgyfaint), a llid yr ymennydd (haint yn yr hylif a'r leinin o amgylch yr ymennydd).

Er y gall haint GBS wneud eich baban yn sâl iawn, gyda thriniaeth brydlon bydd y mwyafrif o fabanod yn gwella'n llawn. Fodd bynnag, o'r babanod sy'n datblygu haint GBS cychwyn cynnar, bydd 1 o bob 19 (5.2%) yn marw ac, o'r goroeswyr, bydd gan 1 o bob 14 (7.4%) anabledd hirdymor.

Ar gyfartaledd yn y Deyrnas Unedig, pob mis

- bydd 43 o fabanod yn datblygu haint GBS cychwyn cynnar
- bydd 38 o fabanod yn gwella'n llwyr
- bydd 3 o fabanod yn goroesi gydag anabledau corfforol neu feddyliol hirdymor
- bydd 2 o fabanod yn marw o'i haint GBS cychwyn cynnar

# Beth sy'n creu mwy o risg y bydd fy maban yn datblygu haint GBS?

*Mae'n fwy tebygol y bydd haint yn digwydd:*

- os yw'ch baban wedi ei eni cyn ei amser (cyn cwblhau 37 wythnos o feichiogrwydd) – y cynharaf y genir eich baban, y mwyaf yw'r risg
- os ydych chi wedi cael baban yn flaenorol oedd wedi ei effeithio gan haint GBS
- os oedd gennych chi dymheredd uchel neu arwyddion eraill o haint yn ystod esgor
- rydych wedi cael prawf wrin neu swab positif ar gyfer GBS yn ystod y beichiogrwydd hwn
- mae eich dŵr wedi torri fwy na 24 awr cyn geni eich baban

## Sut ellir lleihau'r risg i fy maban?

- Dylid trin haint wrin a achoswyd gan GBS gyda thabledi [gwrthfotig](#) ar unwaith a dylid hefyd cynnig cyffuriau gwrthfotig i chi trwy ddiferiad yn ystod esgor.
- Dylid cynnig cyffuriau gwrthfotig i chi drwy ddiferiad yn ystod esgor os ydych chi wedi cael prawf swab neu wrin positif ar gyfer GBS gan y GIG neu labordy achrededig arall (gweler gwefan GBSS am ragor o wybodaeth: [www.gbss.org.uk/TestingforGBS](http://www.gbss.org.uk/TestingforGBS)).
- Os ydych chi wedi cael baban yn flaenorol a gafodd ddiagnosis o haint GBS, dylid cynnig cyffuriau gwrthfotig i chi trwy ddiferiad pan fyddwch yn esgor.
- Os yw eich dŵr wedi torri wedi 37 wythnos o feichiogrwydd a'i bod yn wyddys eich bod yn cario GBS, fe gynigir [cymell geni](#) i chi ar unwaith. Mae hyn er mwyn lleihau am faint o amser y bydd eich baban wedi ei amlygu i GBS cyn geni. Dylid hefyd cynnig cyffuriau gwrthfotig i chi trwy ddiferiad.
- Hyd yn oed os nad yw'n wyddys eich bod yn cario GBS, os byddwch chi'n datblygu unrhyw arwyddion o haint yn ystod esgor, fe gynigir cyffuriau gwrthfotig i chi trwy ddiferiad a fydd yn trin amrywiaeth eang o heintiau yn cynnwys GBS.
- Os yw'ch esgor yn cychwyn cyn wythnos 37 eich beichiogrwydd, bydd eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn argymhell eich bod yn cael cyffuriau gwrthfotig trwy ddiferiad hyd yn oed os nad yw'n wyddys eich bod yn cario GBS.

## Beth yw fy opsiynau o ble gallaf eni fy mabi?

Dylech drafod lleoliad arfaethedig yr enedigaeth gyda'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn ystod eich beichiogrwydd i sicrhau y gallwch dderbyn cyffuriau gwrthfotig fel fo angen yn ystod esgor. Os byddwch yn dewis cael cyffuriau gwrthfotig, fe'i rhoddir i chi trwy ddiferiad ac efallai na fydd pob tro'n bosibl trefnu hyn yn eich cartref neu mewn rhai unedau dan arweiniad bydwragedd.

Cyn gynted ag y byddwch yn cychwyn esgor neu y bydd eich dŵr yn torri, cysylltwch â'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol gan ei bod yn bwysig eich bod yn cael y cyffuriau gwrthfotig cyn gynted â phosibl. Dylech roi gwybod i'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol os ydych chi wedi cael baban yn flaenorol oedd â haint GBS neu os ydych chi wedi cael prawf positif ar gyfer GBS yn flaenorol yn ystod y beichiogrwydd hwn.

## Os canfyddir GBS, pryd ddylwn i gael cyffuriau gwrthfotig?

Os canfyddir eich bod yn cario GBS yn eich fagina neu rectwm, nid yw eich trin gyda chyffuriau gwrthfotig cyn eich esgor yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd eich baban yn datblygu haint GBS. Ni fyddwch angen triniaeth wrthfotig nes bydd yr esgor yn cychwyn, pan gynigir cyffuriau gwrthfotig i chi trwy ddiferiad i leihau'r tebygolrwydd y caiff eich baban ei heintio. Mae'r cyffuriau gwrthfotig hyn yn lleihau'r risg y bydd eich baban yn datblygu haint GBS yn ystod wythnos gyntaf ei fywyd o tua 1 mewn 400 i 1 mewn 4000.

Os canfyddir GBS yn eich wrin, yna byddwch angen cyffuriau gwrthfotig cyn gynted ag y cewch y diagnosis i drin eich haint y llwybr wrin. Fe gynigir cyffuriau gwrthfotig i chi yn ystod esgor hefyd i atal haint GBS yn eich baban.

Mae yna sefyllfaoedd eraill ble cynigir cyffuriau gwrthfotig i chi, ond nid yw'r rhain yn gysylltiedig yn benodol i haint GBS:

Os bydd eich dŵr yn torri yn gynamserol (cyn 37 wythnos) ond nad ydych chi yn esgor, efallai y cynigir cwrs o gyffuriau gwrthfotig i chi. Gweler canllaw NG25 y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) ar *Esgor a Genedigaeth Gynamserol*:

[www.nice.org.uk/guidance/ng25/ifp/chapter/lf-your-waters-break-early](http://www.nice.org.uk/guidance/ng25/ifp/chapter/lf-your-waters-break-early).

- Os ydych chi'n cael toriad cesaraidd ac yn cario GBS, ni fyddwch chi angen cyffuriau gwrthfotig i atal haint GBS yn eich baban oni bai bod esgor wedi cychwyn neu os yw eich dŵr yn torri. Fe gynigir cyffuriau gwrthfotig i bob dynes sy'n cael toriad cesaraidd ar adeg y llawdriniaeth i leihau'r risg o nifer helaeth o heintiau.

# Os oedd gen i GBS mewn beichiogrwydd blaenorol, a ddylid rhoi cyffuriau gwrthfotig i mi yn ystod esgor?

- Os cafodd haint GBS effaith ar faban blaenorol, yna dylid cynnig cyffuriau gwrthfotig i chi yn ystod esgor ym mhob beichiogrwydd wedi hynny, gan fod yna risg cynyddol y bydd yn effeithio ar faban yn y dyfodol hefyd.
- Fodd bynnag, os canfuwyd GBS mewn beichiogrwydd blaenorol ac na effeithiodd ar eich baban, yna mae yna debygolrwydd o 1 mewn 2 (50%) y byddwch yn ei gario eto yn ystod y beichiogrwydd hwn. I'ch helpu i ddewis os hoffech chi gael cyffuriau gwrthfotig yn ystod esgor, gallwch gael prawf swab penodol (a elwir yn gyfrwng meithriniad coeth neu brawf ECM) i weld os ydych chi'n cario GBS pan fyddwch yn wythnosau 35-37 eich beichiogrwydd. Os yw'r canlyniad yn dangos:
  - eich bod yn dal i gario GBS yn ystod y cyfnod hwn o feichiogrwydd, yna mae'r risg y bydd eich baban yn datblygu haint GBS cychwyn cynnar yn cynyddu i tua 1 mewn 400 ac fe gynigir cyffuriau gwrthfotig i chi yn ystod esgor.
  - nad ydych yn cario GBS yn ystod y cyfnod hwn o feichiogrwydd, yna mae'r risg y bydd eich baban yn datblygu haint GBS cychwyn cynnar yn llawer is (1 mewn 5000) a gallwch ddewis peidio cael cyffuriau gwrthfotig.

## Beth fydd yn digwydd yn ystod esgor?

Os cynigir cyffuriau gwrthfotig i chi i atal haint GBS i'ch baban, dylid cychwyn ar y rhain cyn gynted â phosibl wedi i'ch esgor gychwyn, neu wedi'ch dŵr dorri. Fe'i rhoddir trwy ddiferiad gan barhau ar ysbeidiau rheolaidd (fel arfer pob 4 awr) nes genir eich baban.

Dylai fod yn bosibl i chi ddal i symud o gwmpas yn rhydd yn ystod esgor ac ni ddylai hyn eich atal rhag cael genedigaeth dŵr.

Os bydd eich dŵr yn torri cyn esgor, bydd eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn trafod pryd fyddwch chi angen cyffuriau gwrthfotig gyda chi a'r amser gorau i eni eich baban. Bydd hyn yn dibynnu ar eich amgylchiadau unigol ac ar sawl wythnos sydd ers i chi ddod yn feichiog.

Fel arfer y cyffur gwrthfotig a gynigir i chi i atal haint GBS yn eich baban yw penisilin. Os oes gennych chi alergedd i benisilin, yna fe gynigir dewis amgen addas i chi.

## A allai cyffuriau gwrthfotig yn ystod esgor achosi unrhyw niwed?

Bydd rhai merched yn cael sgil effeithiau dros dro fel teimlo'n sâl neu ddolur rhydd. Gall rhai merched fod ag alergedd i gyffuriau gwrthfotig penodol ac mewn achosion prin gallai fod yn ddifrifol a pheryglu bywyd ([anaffylacsis](#)). Rhowch wybod i'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol os gwyddoch fod gennych alergedd i benisilin neu unrhyw feddyginiaethau eraill.

Dylai eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol drafod manteision a risgiau cymryd cyffuriau gwrthfotig yn ystod esgor i atal haint GBS cychwyn cynnar yn eich baban.

Os byddwch yn dewis peidio cael cyffuriau gwrthfotig yn ystod esgor, yna bydd eich baban yn cael ei fonitro'n agos am 12 awr wedi'r enedigaeth gan y bydd risg gynyddol o ddatblygu haint GBS cychwyn cynnar.

## Sut fydd fy maban yn cael ei fonitro wedi'r enedigaeth?

Os genir eich baban wedi tymor llawn (wedi cwblhau 37 wythnos) a'ch bod yn derbyn cyffuriau gwrthfotig trwy ddiferiad yn ystod esgor o leiaf 4 awr cyn rhoi genedigaeth, yna ni fydd eich baban angen monitro arbennig wedi'r enedigaeth.

Os teimlir bod risg uwch y gallai'ch baban ddatblygu haint GBS ac na chwsoch gyffuriau gwrthfotig trwy ddiferiad o leiaf 4 awr cyn rhoi genedigaeth, yna bydd eich baban yn cael ei fonitro'n ofalus am arwyddion o haint am o leiaf 12 awr. Bydd hyn yn cynnwys asesu lles cyffredinol eich baban, curiad y galon, tymheredd, anadlu a bwydo.

Os ydych chi wedi cael baban yn flaenorol oedd wedi ei effeithio gan haint GBS, bydd eich baban yn cael ei fonitro am 12 awr hyd yn oed os cawsoch gyffuriau gwrthfotig trwy ddiferiad yn ystod esgor.

Mae'r tebygolrwydd y bydd eich baban yn datblygu haint GBS wedi 12 awr yn isel iawn, ac ni fyddwch chi na'ch baban angen cyffuriau gwrthfotig wedi hyn oni bai eich bod chi neu'ch baban yn ddifrifol wael.



## Beth yw'r arwyddion o haint GBS yn fy maban?

Bydd y rhan fwyaf o fabanod sy'n datblygu haint GBS yn dod yn wael yn ystod wythnos gyntaf ei fywyd (a elwir yn haint GBS cychwyn cynnar), fel arfer o fewn 12-24 awr o'r enedigaeth. Er yn llai cyffredin, gall haint GBS cychwyn cynnar effeithio ar eich baban hyd at dri mis oed. Nid yw cael cyffuriau gwrthfotig yn ystod esgor yn atal GBS cychwyn hwyr. Ceir rhagor o wybodaeth ar haint GBS cychwyn hwyr yma: [www.gbss.org.uk/infection](http://www.gbss.org.uk/infection).

Gallai babanod gyda haint GBS cychwyn cynnar arddangos yr arwyddion canlynol:

- rhochian, anadlu swnllyd, cwynfan, ymddangos i fod yn gweithio'n galed i anadlu wrth i chi edrych ar ei frest neu fol, neu ddim yn anadlu o gwbl
- yn gysglyd ac/neu anymatebol iawn
- yn crio yn barhaus
- yn anarferol o lipa
- ddim yn bwydo'n dda neu ddim yn cadw llaeth i lawr
- gyda thymheredd uchel neu isel ac/neu mae ei groen yn teimlo'n rhy boeth neu oer
- newidiadau yn lliw ei groen (yn cynnwys croen cochlyd)
- gyda chyfradd curiad y galon neu gyfradd anadlu anarferol o gyflym neu araf
- gyda phwysedd gwaed isel \*
- gyda lefel siwgr yn y gwaed isel \*

\* Dynodir yn defnyddio profion a wneir yn yr ysbyty

Os byddwch chi'n sylwi ar unrhyw un o'r arwyddion hyn, neu os ydych chi'n gofidio am eich baban, dylech gysylltu ar frys gyda'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a chrybwyll GBS. Os oes gan eich baban haint GBS, mae diagnosis a thriniaeth gynnar yn bwysig gan y gallai oedi fod yn ddifrifol iawn neu hyd yn oed yn angheuol.

## Pa brofion a thriniaethau sydd ar gael ar gyfer fy maban?

Os credir bod gan eich baban newydd-anedig haint, bydd profion yn cael eu cyflawni i weld os mai GBS yw'r achos. Gallai hyn gynnwys cymryd sampl o waed eich baban, neu sampl o hylif o ardal madruddyn y cefn eich baban (tynnu hylif o'r meingefn). Fe drafodir hyn gyda chi yn llawn cyn gwneud y profion.

Dylid trin babanod gydag arwyddion o haint GBS neu fabanod yr amheuir bod ganddynt yr haint gyda chyffuriau gwrthfotig cyn gynted â phosibl. Gall cyffuriau gwrthfotig achub bywyd o'u rhoi i fabanod a amheuir i fod â haint. Fe atalir y driniaeth os nad oes unrhyw arwydd o haint wedi o leiaf 36 awr, ac os bydd yr holl brofion yn negyddol.

## Ydw i'n dal i allu bwydo ar y fron?

Mae'n ddiogel i fwydo eich baban newydd ar y fron. Nid oes unrhyw brawf bod bwydo ar y fron yn cynyddu'r risg o haint GBS, ac mae'n cynnig nifer o fanteision i chi ac i'ch baban.

## Pam nad yw pob dynes yn cael ei phrofi am GBS yn ystod beichiogrwydd yn y Deyrnas Unedig?

Nid yw Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y Deyrnas Unedig yn argymhell profion ar gyfer pob dynes feichiog ar gyfer presenoldeb GBS yn defnyddio swabiau o'r fagina a'r rhefr. Y rheswm am hyn yw:

- mae nifer o ferched yn cario'r bacteria GBS ac, yn y mwyafrif o achosion, genir eu babanod yn ddiogel ac nid ydynt yn datblygu haint.
- ni all sgrinio pob dynes yn hwyr yn y beichiogrwydd ragweld yn gywir pa fabanod fydd yn datblygu haint GBS.
- nid oes yr un prawf sgrinio sy'n gwbl gywir: nid yw swab negyddol yn rhoi sicrwydd nad ydych yn cario GBS.
- mae nifer o fabanod sydd wedi eu heffeithio'n ddifrifol gan haint GBS yn cael eu geni cyn amser, cyn y cyfnod a awgrymir ar gyfer sgrinio (35-37 wythnos).
- byddai rhoi cyffuriau gwrthfotig i bob dynes sy'n cario GBS yn golygu bod nifer fawr o ferched yn derbyn triniaeth nad oes ei hangen arnynt.

# Rhagor o wybodaeth

Group B Strep Support (GBSS): [www.gbss.org.uk](http://www.gbss.org.uk)

Canllaw Gwyrdd Rhif 36 RCOG, *Prevention of Early-onset Neonatal Group B Streptococcal Disease*:

[www.rcog.org.uk/en/guidelines-research-services/guidelines/gtg36/](http://www.rcog.org.uk/en/guidelines-research-services/guidelines/gtg36/)

Canllaw clinigol NICE CG190, *Intrapartum Care for Healthy Women and Babies*:

[www.nice.org.uk/guidance/cg190](http://www.nice.org.uk/guidance/cg190)

Canllaw clinigol NICE CG149, *Neonatal infection (Early Onset): Antibiotics for Prevention and Treatment*: [www.nice.org.uk/guidance/CG149](http://www.nice.org.uk/guidance/CG149)

Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y Deyrnas Unedig, argymhelliad ar GBS mewn beichiogrwydd: <https://legacyscreening.phe.org.uk/groupbstreptococcus>

Ceir rhestr lawn o sefydliadau defnyddiol (yn cynnwys yr uchod) ar wefan yr RCOG: [www.rcog.org.uk/en/patients/other-sources-of-help](http://www.rcog.org.uk/en/patients/other-sources-of-help)

## Gwneud Penderfyniad

### Gwneud Penderfyniad ar y Cyd

Os gofynnir i chi wneud penderfyniad, efallai y bydd gennych chi nifer o gwestiynau i'w holi. Efallai yr hoffech hefyd drafod eich dewisiadau gyda'ch teulu neu ffrindiau. Gall helpu i greu rhestr o gwestiynau rydych isiau ateb iddynt gyda chi i'ch apwyntiad.



### Holwch 3 Chwestiwn

**I gychwyn, ceisiwch sicrhau'ch bod yn cael atebion i dri chwestiwn allweddol os gofynnir i chi wneud penderfyniad am eich gofal iechyd.**

1. Beth yw fy opsiynau?
2. Beth yw'r manteision ac anfanteision i mi?
3. Sut ydw i'n cael cefnogaeth i'm helpu i wneud penderfyniad sy'n addas i mi?

\* Mae Holwch 3 Chwestiwn yn seiliedig ar Shepherd HL, et al. Three questions that patients can ask to improve the quality of information physicians give about treatment options: A cross-over trial. Patient Education and Counselling, 2011;84: 379-85



Group B Strep  
Support



Royal College of  
Obstetricians &  
Gynaecologists

Group B Strep Support yw'r elusen sy'n gweithio yn y Deyrnas Unedig i atal haint Strep grŵp B (GBS) mewn babanod. Rydym yn:

- Codi ymwybyddiaeth o Strep grŵp B ymysg y cyhoedd ac yn cefnogi teuluoedd sydd wedi eu heffeithio
- Darparu gwybodaeth i weithwyr iechyd proffesiynol ynghylch sut i atal, nodi a thrin haint GBS mewn babanod
- Ymgyrchu dros welliannau mewn strategaethau atal yn y Deyrnas Unedig
- Cefnogi ymchwil i atal heintiau GBS mewn babanod

Gyda chefnogaeth panel cyngori meddygol a berchir, mae GBSS yn cynnig deunydd gwybodaeth am ddim i ddarparu rieni a rhieni newydd sydd wedi eu heffeithio gan Strep grŵp B, ac i weithwyr iechyd proffesiynol y GIG ar draws y Deyrnas Unedig.

[www.gbss.org.uk](http://www.gbss.org.uk)

Elusen gofrestredig: 1112065

Mae RCOG yn gweithio i wella gofal iechyd i ferched ym mhobman, trwy osod safonau ar gyfer ymarfer clinigol, darparu hyfforddiant a dysgu gydol oes i feddygon, ac eirioli dros ofal iechyd i ferched ar draws y byw. Rydym yn:

- Datblygu canllawiau clinigol a gwybodaeth i ferched
- Cefnogi addysg, hyfforddiant a dysgu gydol oes i feddygon sy'n arbenigo yn iechyd merched
- Cyflawni ymchwil, archwilio a gwella ansawdd prosiectau i wella gofal iechyd i ferched
- Gweithio gyda phartneriaid i gefnogi datblygiad polisi o fewn gofal iechyd i ferched

[www.rcog.org.uk](http://www.rcog.org.uk)

Elusen gofrestredig: 213280

## Ffynonellau a chydabyddiaethau

Datblygwyd yr wybodaeth hon gan Bwyllgor Gwybodaeth i Gleifion RCOG mewn cydweithrediad â Group B Strep Support (GBSS). Mae'n seiliedig ar Ganllaw Gwyrdd RCOG Rhif 36, *Prevention of Early-onset Neonatal Group B Streptococcal Disease* a gyhoeddwyd ym Medi 2017. Mae'r Canllaw yn cynnwys rhestr lawn o'r ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiwyd. Gallwch ei weld ar-lein ar: [www.rcog.org.uk/en/guidelines-research-services/guidelines/gtg36](http://www.rcog.org.uk/en/guidelines-research-services/guidelines/gtg36).

Mae'r wybodaeth hon wedi ei hadolygu cyn cyhoeddi gan ferched yn mynychu clinigau yn Wrecsam a Llundain, gan Rwydwaith Merched RCOG a Phanel Cynhwysiant Lleisiau Merched RCOG, a gan Group B Strep Support a'u rhwydweithiau.

Cysylltwch â ni yn GBSS am ragor o wybodaeth a chopïau ychwanegol o'r daflen hon.

**0330 120 0796**

[info@gbss.org.uk](mailto:info@gbss.org.uk)

Argraffwyd a dosbarthwyd yn y Deyrnas Unedig gan Group B Strep Support. Mae'r holl gynnwys wedi ei ddatblygu'n annibynnol gan GBSS a'r RCOG.

Cyhoeddwyd yn Rhagfyr 2017 (dyddiad yr adolygiad nesaf: 2020)